Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Yr Athro Medwin Hughes
Cadeirydd Bwrdd Llais.

24 May 2023

Annwyl Medwin,

**Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau Llais yng Nghymru: 2023-24**

Yn dilyn trafodaethau rhwng Llais (enw gweithredol Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru) a Swyddogion Llywodraeth Cymru, rwy'n falch o gymeradwyo'r Gyllideb derfynol yn 2023-2024 a manylion eich trefniadau ariannu:

Cyfanswm cyllideb adnoddau o £7,307,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 i gyflawni eu blaenoriaethau fel y nodir yn y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu a Llythyr Cylch Gwaith Llais Mawrth 2023*. Dyma'r terfyn adnoddau y gall Llais ysgwyddo gwariant arno yn y flwyddyn ariannol benodol.

Y setliad grant mewn cymorth ar gyfer 2023-24 yw £7,303,000. Dyma'r lefel o gymorth grant arian parod y gellir ei hawlio gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol.

Nid yw'r gyllideb adnoddau a swm setliad cymorth grant wedi'u haddasu ar gyfer gofynion IFRS 16 gan ein bod yn deall bod gwaith ar ddeall y goblygiadau i Llais ar hyn yn parhau.

Gwneir addasiadau ar gyfer effaith IFRS 16 yn ystod y flwyddyn, ond dylid nodi na fydd unrhyw arian ychwanegol ar gael ar gyfer taliadau'r brydles ac y bydd angen darparu hyn o fewn y setliad grant mewn cymorth ariannol o £7,303,000.

Nodir y gyllideb adnoddau yn y tabl isod:

| | **Cyfansymiau rheolaeth cyllideb cyffredinol** |
|---|---|
| *Alldro adnoddau net:* | **2023-2024 £** |
| Refeniw (net) | £7,303,000 |
| Nad yw’n arian parod (dibrisio) | 4,000 |
| Cyfalaf (net) | Nil |
| Cyfalafl AME | Nil |

| **Cyfanswm cyllideb adnoddau** | £7,307,000 |
|---|---|

Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ
Ebost/Email:PSChiefMedicalOfficer@gov.wales

**Llinellau cyllideb**

| **Llais** | **Cynlluniau 2023/2024**<br><br>**£'000s ar adeg cyhoeddi'r Llythyr Cylch Gwaith** | **Cynlluniau 2023/2024**<br><br>**£'000s** | **Cynlluniau 2024/2025**<br><br>**£'000s** |
|---|---|---|---|
| Gwariant / Costau Rhedeg a gytunwyd yng Nghyllideb Ddrafft 23/24 | 5,503 | 5,503 | 5,503 |
| Cynnydd mewn costau staff hanesyddol | 0* | 549* | 549* |
| Staffio a hyfforddiant ychwanegol (uchafswm o) | 238** | 238** | 292 |
| Cyfrifoldebau gwasanaethau corfforaethol ychwanegol (uchadfswm o) | 123** | 123** | 164 |
| Cyfrifoldebau a dyletswyddau strategol a chyfathrebu ychwanegol (maximum of) | 210** | 210** | 281 |
| Digidol a TG (uchafswm o) | 679** | 679** | 814 |
| Cyfanswm | 6,754 | 7,302 | 7,603 |

Mae gwariant Llais a gynhwysir yng Nghyllideb Ddrafft 2022 (ar gyfer 2023/2024) yn gyfuniad o'r cyllid Cynghorau Iechyd Cymuned (CICau) a ddarparwyd i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac a gyfeiriwyd at ddefnydd o'r costau CICau y gwyddom amdanynt ar adeg cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Yn dilyn hynny, cytunwyd ar y llinellau ychwanegol o ddyraniad cyllideb gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chyllid i gwmpasu cyfrifoldebau ychwanegol, ac angenrheidiol y Corff er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol o dan y Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu.

* Dyrannwyd y cynnydd mewn costau cyflog sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog Agenda ar gyfer Newid blaenorol i Fwrdd Iechyd Addysgu Powys ac ni chawsant eu cynnwys yn y taliadau blynyddol a gyfeiriwyd at CIC y cytunwyd ar gyllideb Llais arnynt ar bwynt y gyllideb ddrafft. Mae hyn bellach wedi'i ddatrys a bydd arian yn cael ei ailgyfeirio at Llais. Nid oedd y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd ym mis Mawrth yn adlewyrchu'r costau ychwanegol gan nad oedd y rhain wedi'u nodi ar y pwynt cyhoeddi.

**Mae rhai llinellau cyllideb yn 2023/2024 yn cael eu lleihau 25% i ystyried bod Llais yn sefydliad newydd sy'n recriwtio ac yn prynu adnoddau newydd a oedd yn annhebygol o fod ar waith erbyn Gorffennaf 2023 ond a fydd yn ofynnol yn y blynyddoedd llawn i ddod.

Er bod Rhaglen Sefydlu Llywodraeth Cymru wedi cefnogi Llais i fodelu'i gyllideb ofynnol er mwyn cael ei sefydlu a'i gweithredu ym mis Ebrill 2023 mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod annibyniaeth weithredol y Corff ac felly mae penderfyniadau ar lefel yr arian a ddyrennir i bob llinell wariant bellach yn gyfrifoldeb Llais. Fodd bynnag, ar ddechrau pob blwyddyn ariannol, rhaid i Llais roi amcangyfrif i Lywodraeth Cymru o'u costau rhedeg am y flwyddyn ac amcangyfrif o'u derbyniadau disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn. Bydd angen rheoli unrhyw ddiffyg mewn derbyniadau disgwyliedig o fewn dyraniad cyllideb cyffredinol Llais, oni bai y cytunir yn ysgrifenedig fel arall gyda Llywodraeth Cymru.

<u>Ffynonellau incwm eraill</u>

O dan GOWA, mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i adrodd am bob ffynhonnell incwm arall ar gyfer pob corff o fewn ffin llywodraeth ganolog a'i reoli o fewn terfyn rheolaeth incwm cyffredinol y cytunwyd arno gan Senedd Cymru. Er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i aros o fewn y cyfanswm rheolaeth hwn, dylai Llais ofyn am gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf am unrhyw incwm y mae Llais yn ei gadw o ffynonellau eraill i ariannu gweithgarwch yn ystod y flwyddyn.

Nid dyma'r terfyn goddefgarwch ar gyfer arian a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn.

Cyllidebau adnoddau cyffredinol dangosol ar gyfer gweddill tymor y llywodraeth yw:

| Blwyddyn | Adnoddau refeniw (net)* | Adnoddau nad yw'n arian parod * | Adnoddau cyfalaf (net) * | Incwm adnoddua refeniw * | Incwm adnoddau cyfalafme * |
|---|---|---|---|---|---|
| 2024-2025 (2ail flwyddyn) | 7,603,000 | 4,000 | nil | nil | nil |

Byddwch yn ymwybodol bod y Lesoedd IFRS 16, a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg Rhyngwladol (IASB) yn 2016 wedi'i fabwysiadu gan Sector Cyhoeddus y DU o 1 Ebrill 2022. O'r herwydd, bydd angen i Llais ystyried hyn fel rhan o'ch prosesau cyllidebu, fodd bynnag, rydym yn cydnabod, fel corff newydd, a gynhaliwyd yn flaenorol gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys, y bydd angen rhywfaint o waith i ddad-ddewis a deall yr hyn a gynhwyswyd yn amserlen Powys a sut y bydd hyn yn effeithio ar Llais. Felly, hoffem drafod cyllideb adnoddau dangosol IFRS16 sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer y tymor sy'n weddill cyn gynted â phosibl.

*Sylwch nad yw'r cyllid hwn wedi'i gadarnhau a gallai gynyddu neu leihau. Bydd lefelau ariannu'n cael eu cadarnhau yn ystod proses Cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru.


**Telerau ac Amodau Ariannu:**

Mae'r llythyr cylch gwaith a'r ddogfen fframwaith a roddwyd i Llais yn nodi amrywiol ofynion gweithredol ac yn cyfeirio at ganllawiau a pholisïau'r llywodraeth y mae angen i Llais gydymffurfio â hwy, yn ogystal â'i ddyletswyddau ei hun fel cyfrifoldebau fel sefydliad cyhoeddus yng Nghymru. Mae tîm partneriaeth Llywodraeth Cymru yn cael ei arwain gan Chris Jones a'ch pwynt cyswllt arferol o fewn y tîm yw Richard Desir a Rebecca Malings.
Trefnir cyfarfod gyda'ch tîm partneriaeth i gytuno ar drefniadau goruchwylio a monitro priodol.

Dylid hawlio arian gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ynghlwm yn Atodiad A.

Fel mater o drefn, dylid trefnu cynllunio ariannol Llais ag amseriad cylch cyllideb Llywodraeth Cymru. Gyda hyn mewn golwg, dylai Llais nodi ei ofynion cyllideb blynyddol ar gyfer 2023/2024 erbyn diwedd mis Hydref 2023.

Yn gywir



**YR ATHRO CHRIS JONES**